Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Safonau'r rhaglen adfer

Wedi'i ddiweddaru ar Ionawr 24 2022

# Cyflwyniad

**Mewn ymateb i'r pandemig Covid-19, fe wnaethom ddatblygu set o safonau brys ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth.**

Nod y safonau hyn oedd rhoi hyblygrwydd i sefydliadau addysg cymeradwy (AEIs) a'u partneriaid dysgu ymarfer alluogi myfyrwyr yn eu hail a'u trydedd/flwyddyn olaf i gefnogi'r gweithlu. Roedd myfyrwyr yn gallu defnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau wrth barhau â'u rhaglenni a bodloni eu canlyniadau dysgu.

Wrth i'r pandemig barhau, fe wnaethom ddileu'r mwyafrif o'r safonau brys ar 30 Medi 2020 er mwyn cynorthwyo myfyrwyr a oedd yn dychwelyd i'w hastudiaethau arferol a'u lleoliadau ychwanegol. Fe wnaethom nodi nifer o safonau rhaglenni brys a gadwyd fel safonau adfer.

Yn dilyn cais gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol fe wnaethom ailgyflwyno set o safonau brys a alluogodd fyfyrwyr nyrsio blwyddyn olaf (heb gynnwys y rhai yn eu blwyddyn olaf o raglen diploma ôl-raddedig dwy flynedd) i ymgymryd â hyd at 100 y cant o'u hamser mewn ymarfer clinigol, tra bod y safon honno'n parhau i fod yn weithredol. Cafodd y safon hon ei dileu wedyn ym mis Mai 2021.

Fe wnaethom hefyd gydnabod nad oedd yn bosibl i fyfyrwyr blwyddyn gyntaf ddal I ymarfer fel arfer mewn rhai rhanbarthau o'r DU. Felly fe wnaethom gytuno i adfer y safon frys a oedd yn caniatáu i'r blynyddoedd cyntaf gwblhau eu blwyddyn mewn dysgu academaidd ac ar-lein lle na ellir cefnogi eu lleoliadau arferol. Fe wnaethom hefyd ailgyflwyno rhywfaint o hyblygrwydd ychwanegol o amgylch y Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr.

Fe gafodd ein holl safonau brys eu dileu ar 30 Medi 2021, gyda'r safonau adfer yn parhau i fod yn weithredol.

Byddwn ni'n parhau i fonitro'r pandemig, gan weithio'n agos gyda rhanddeiliaid yn y sector os bydd angen i ni adfer safonau brys pellach neu ychwanegu safonau adfer ychwanegol.

# Mae'r safonau adfer canlynol yn berthnasol i bob rhaglen

## Safonau adfer

**R1.** Sicrhau bod lleoliadau sy'n cael eu dyrannu'n ystyried y canllawiau cyfredol a pherthnasol yng nghyswllt iechyd y cyhoedd, gan roi sylw dyledus i iechyd a llesiant myfyrwyr unigol.

## Safon wedi ei disodli gan safonau adfer

N/A

## Safonau adfer

**R2.** Bydd pob myfyriwr yn cael cymorth, goruchwyliaeth ac asesiadau yn unol â'r Safonau goruchwylio ac asesu myfyrwyr (SSSA, 2018).

## Safon wedi ei disodli gan safonau adfer

**Safonau i gefnogi dysgu ac asesu ymarferol (SLAiP, 2008):**

Pob safon.

## Safonau adfer

**R3.** Lle y bo'n briodol i gefnogi dysgu myfyrwyr, gellir defnyddio dysgu cyfunol yn hytrach na darparu cyfarwyddyd theori, sy'n bodloni'r oriau a'r deilliannau dysgu o ran theori.

## Safon wedi ei disodli gan safonau adfer

N/A

## Safonau adfer

**R4.** Lle mae gan fyfyrwyr 12 wythnos i fodloni unrhyw ddeilliannau nad ydynt wedi'u bodloni eto, bydd cyfnod digyfyngiad i fodloni'r rhain dan yr amgylchiadau eithriadol hyn.

## Safon wedi ei disodli gan safonau adfer

### SPNE (2010)

Safon 3: Dewis, derbyn, cynnydd a chwblhau

**R3.10.2** Lle bo amgylchiadau eithriadol yn rhwystro'r holl ddeilliannau rhag cael eu bodloni o fewn y cyfnod asesu ar gyfer y rhan hon o'r rhaglen, rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy sicrhau bod y deilliannau nad ydynt wedi'u cyflawni yn cael eu bodloni a'u cadarnhau cyn pen 12 wythnos ar ôl i'r myfyriwr symud ymlaen i ran nesaf y rhaglen. Mae'r 12 wythnos yma'n cynnwys gwyliau ac unrhyw absenoldebau. Gellir gwneud addasiadau rhesymol i fyfyrwyr ag anableddau.

**R3.10.3** Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy sicrhau bod myfyrwyr nad ydynt yn cyflawni'r deilliannau sydd ar ôl cyn diwedd y 12 wythnos, yn ddibynnol ar y polisi asesu lleol, naill ai'n dychwelyd i ran flaenorol y rhaglen i ddal i fyny neu'n cael eu tynnu oddi ar y rhaglen.

### SPME (2009)

Safon 15: Strategaeth asesu

Rhaid i ymarfer clinigol gael ei raddio a'i gyfrif fel rhan o'r dyfarniad academaidd. Rhaid cyflawni'r holl ddeilliannau o fewn cyfnod cynnydd (er enghraifft, blwyddyn academaidd) a'u cadarnhau cyn pen 12 wythnos ar ôl symud ymlaen i'r lefel academaidd nesaf. Rhaid cwblhau a phasio pob asesiad cyn gallu cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus. Mae hyn wedi'i lunio er mwyn cadarnhau bod gan

# Mae'r safonau adfer presennol yn berthnasol i bob rhaglen nyrsio

**Mae'r safonau adfer hyn yn berthnasol i sefyllfaoedd lle mae cyswllt uniongyrchol gyda phobl a chymunedau iach neu sâl mewn lleoliadau dysgu ymarferol wedi'u harchwilio yn gyfyngedig oherwydd y pandemig, neu'n amhosibl i fyfyrwyr nyrsio.**

## Safonau adfer

**RN5** Rhaid i AEIau a'u partneriaid dysgu ymarferol sicrhau bod cyfleoedd dysgu rhithwir ac ar sail efelychu yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn gyfrannol er mwyn cefnogi dysgu ac asesu ymarferol, i fodloni safonau hyfedredd, sgiliau cysylltiedig a gweithdrefnau nyrsio, a chanlyniadau rhaglenni nyrsio cyn-cofrestru ar gyfer y flwyddyn astudio bwriedig.

Os nad oes digon o gyswllt uniongyrchol gyda phobl a chymunedau iach neu sâl mewn lleoliadau dysgu ymarferol wedi'u harchwilio ar gael fel bod myfyrwyr yn gallu bodloni'r deilliannau dysgu, gellid defnyddio cyfleoedd dysgu amgen sy'n manteisio ar efelychu, dysgu rhithwir a digidol ac ymagweddau cyfoes eraill. Gall y dulliau hyn ddisodli cyswllt uniongyrchol yn ymarferol am hyd at uchafswm o 300 awr (wyth wythnos) o'r cyfanswm o 2,300 o oriau dysgu ymarferol.

Dylai'r asesiad dysgu ymarferol terfynol sydd ei angen ar gyfer y dyfarniad a bod yn gymwys i gofrestru gael ei gynnal mewn lleoliad ymarferol wedi'i archwilio, a bodloni'r safonau o ran goruchwylio ac asesu myfyrwyr (2018).

**RN5.1** Rhaid sicrhau bod goruchwyliaeth briodol o fyfyrwyr yn defnyddio efelychu, dysgu rhithwir a digidol ac ymagweddau dysgu ymarferol cyfoes eraill (er enghraifft dysgu gan gyfoedion, actorion; cywirdeb isel neu uchel gan gynnwys manicin; a rhaglenni dysgu ymarferol rhithwir ac ar-lein sy'n cynnwys astudiaethau achos go iawn, myfyrio a rhyngweithio gyda phobl) ac asesiadau priodol o fyfyrwyr er mwyn sicrhau bod y deilliannau dysgu'n cael eu bodloni yn ystod dysgu digidol neu ar sail efelychu ar waith er mwyn bodloni'r safonau o ran goruchwylio ac asesu myfyrwyr (2018).

## Safon wedi'i disodli gan y safonau adfer

**SPNE (2010)**

**5.2.4** Rhaid i AEIau sicrhau nad yw mwy na 300 awr o'r 2,300 awr ymarferol yn cael eu defnyddio ar gyfer hyfforddiant clinigol mewn amgylchedd dysgu ymarferol wedi'i efelychu. Rhaid i'r amgylchedd gefnogi'r datblygiad o sgiliau gofal uniongyrchol, a chael ei archwilio gan yr AEI cyn ei ddefnyddio

**SPNE (2018)**

Rhan 3 Dysgu Ymarferol

**3.4** sicrhau bod cyfleoedd dysgu sydd wedi'u gwella gan dechnoleg ac ar sail efelychu'n cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn gyfrannol mwyn cefnogi dysgu ac asesu, a sicrhau bod rhaglenni nyrsio cyn-cofrestru sy'n arwain at gofrestru ym maes ymarferol oedolion yn cydymffurfio ag Erthygl 31(5) o Gyfarwyddeb 2005/36/EC (Gweler isod)

Cyfarwyddeb 2005/36/EC lleiafswm gofynion ar gyfer gofal cyffredinol (nyrsys oedolion), Erthygl 31 – hyfforddiant i nyrsys sy'n gyfrifol am ofal cyffredinol

**31(5)** Hyfforddiant clinigol yw'r rhan honno o hyfforddiant i nyrsys lle byddant yn dysgu, yn rhan o dîm a thrwy gyswllt uniongyrchol gydag unigolion a/neu gymuned iach neu sâl, i drefnu, gweinyddu ac arfarnu'r gofal nyrsio cynhwysfawr, ar sail gwybodaeth, sgiliau a'r cymwyseddau y maent wedi'u hennill. Bydd y nyrs dan hyfforddiant yn dysgu nid yn unig sut i weithio mewn tîm, ond hefyd sut i arwain tîm a threfnu gofal nyrsio cyffredinol, gan gynnwys addysg iechyd i unigolion a grwpiau bach, o fewn sefydliadau iechyd neu yn y gymuned.

Bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei gynnal mewn ysbytai a sefydliadau iechyd eraill yn y gymuned, dan gyfrifoldeb athrawon nyrsio, ar y cyd a chyda chymorth nyrsys cymwys eraill. Mae'n bosib y bydd personél cymwys eraill yn cymryd rhan yn y broses addysgu.

Bydd nyrsys dan hyfforddiant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau'r adran dan sylw cyn belled ag y bo'r gweithgareddau hynny yn briodol i'w hyfforddiant, yn eu galluogi nhw i ddysgu sut i gymryd y cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth ofal nyrsio.

## Gwybodaeth ategol

**Diben y safon adfer hon yw galluogi AEIau i gynnal y profiad dysgu ymarferol i gau unrhyw fylchau o ran dysgu ymarferol a achoswyd gan effeithiau'r pandemig.**

Ystyrir bod dysgu ymarferol gyda chyswllt uniongyrchol â phobl a chymunedau iach neu sâl mewn lleoliadau dysgu ymarferol wedi'u harchwilio yn ddelfrydol. Os nad yw hyn yn llwyr bosib oherwydd y pandemig, neu'n amhosibl i fyfyrwyr nyrsio, gellid defnyddio'r safonau adfer hyn, gyda'r nod o ddefnyddio dysgu ymarferol wedi'i efelychu gyda phobl iach neu sâl lle bo'n bosibl.

1. Bydd y safonau adfer yn berthnasol nes y bydd y Cyngor yn penderfynu i'w diddymu.
2. Gall AEIau benderfynu a ddylid gweithredu'r safonau adfer hyn ai peidio. Os cânt eu gweithredu, byddant yn penderfynu sut i wneud hyn. Dylent ymgysylltu'n uniongyrchol â myfyrwyr er mwyn egluro a chytuno ar y rhesymeg dros y penderfyniad.
3. Os yw AEIau yn dewis gweithredu'r safonau adfer hyn, bydd angen iddynt adrodd yn eithriadol y newidiadau a wneir i'r rhaglen gan gynnig tystiolaeth o sut mae'r goruchwylio a'r asesu wedi cael eu bodloni yn unol â'n safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr. Byddwn yn gofyn am fanylion o sut mae dulliau dysgu ymarferol amgen wedi cael eu gweithredu drwy ffurflen adrodd eithriadol Covid-19.
4. Nifer yr oriau cyswllt uniongyrchol ymarferol y mae modd eu disodli gan ddefnyddio dulliau amgen yw hyd at 300 o'r 2,300 o oriau dysgu ymarferol, drwy gydol y rhaglen.
5. Ar gyfer myfyrwyr yn y flwyddyn olaf, dylai'r asesiad dysgu ymarferol terfynol sydd ei angen ar gyfer cael dyfarniad a bod yn gymwys i gofrestru gael ei gynnal mewn lleoliad ymarferol wedi'i archwilio, ac mae'n rhaid bodloni'r safonau o ran goruchwylio ac asesu myfyrwyr (2018).
6. Ni nodir hyd y lleoliad terfynol os bydd nifer yr oriau ymarferol gofynnol a'r deilliannau dysgu wedi'u bodloni.
7. Gellid darparu dulliau dysgu ymarferol cyfoes amgen o ran dysgu ymarferol ac asesu ar ffurf efelychu, yn rhithwir ac yn ddigidol, gan gynnwys: dysgu gan gyfoedion; actorion; cywirdeb uchel ac isel gan gynnwys manicin/amgylcheddau; a rhaglenni hyfforddiant dysgu ymarferol rhithwir ac ar-lein sy'n cynnwys astudiaethau achos gwirioneddol, myfyrio a rhyngweithio gyda phobl.
8. Rhaid i ansawdd y profiad dysgu alluogi myfyrwyr i fodloni'r deilliannau dysgu ymarferol a chymhwysedd.

9. Drwy weithredu dulliau dysgu ymarferol amgen, dylid ystyried cynnwys a dysgu gan weithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill.

10. Bydd y safonau goruchwylio ac asesu myfyrwyr yn berthnasol i'r holl ddulliau amgen o gyflawni'r rhaglen er mwyn sicrhau'r safonau hyfedredd, sgiliau cysylltiedig a gweithdrefnau nyrsio, a sicrhau bod deilliannau'r rhaglen nyrsio cyn-cofrestru ar gyfer y flwyddyn astudio fwriedig wedi'u bodloni.

11. Dylid sicrhau bod goruchwyliaeth briodol yn unol â'r deiliannau dysgu ymarferol ar waith ar gyfer y rholl gyfleoedd dysgu ymarferol ar-lein neu wedi'u hefelychu, a gellid cyflawni'r rhain yn gydamserol neu'n anghydamserol.

12. Tra bod y safonau mewn argyfyngau yn weithredol, bydd E5.1 yn berthnasol i gefnogi goruchwyliaeth ac asesu.

13. Yn unol â safon adfer R1, rhaid i'r holl amgylcheddau ymarferol wedi'u hefelychu fod yn ddiogel a dilyn canllawiau pellter cymdeithasol Covid-19.

14. Dylid rhoi cyfle i'r myfyrwyr arfarnu'r profiad dysgu wedi'i efelychu.

## Safonau adfer

**RN6. (D)** Rhaid i AEIau a'u partneriaid dysgu ymarfer sicrhau bod cyfleoedd dysgu rhithwir ac efelychu yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn gymesur i gefnogi dysgu ac asesu mewn ymarfer i ddiwallu safonau hyfedredd a nodwyd yn benodol, sgiliau cysylltiedig a gweithdrefnau nyrsio, a chanlyniadau rhaglen nyrsio cyn cofrestru ar gyfer y flwyddyn astudio arfaethedig. Gall defnyddio efelychu, dysgu rhithwir a digidol a dulliau cyfoes eraill ddisodli cyswllt uniongyrchol yn ymarferol am hyd at 600 awr o'r 2300 o oriau dysgu ymarfer cyffredinol. Dylai'r asesiad dysgu ymarfer terfynol sy'n angenrheidiol ar gyfer dyfarniad a chymhwysedd i gofrestru gael ei gynnal mewn sefyllfa lleoliad ymarfer archwiliedig a diwallu'r safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr (2018).

*Rhaid i unrhyw AEI sy'n dymuno defnyddio RN6(D) wneud cais i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn gyntaf a chael cymeradwyaeth gan ddefnyddio'r ffurflen hon. Bydd RN5.1 hefyd yn berthnasol i unrhyw AEI sy'n defnyddio RN6(D).*

## Safon wedi'i disodli gan y safonau adfer

### SPNE (2010)

**5.2.4** Rhaid i AEIau sicrhau nad yw mwy na 300 awr o'r 2,300 awr ymarferol yn cael eu defnyddio ar gyfer hyfforddiant clinigol mewn amgylchedd dysgu ymarferol wedi'i efelychu. Rhaid i'r amgylchedd gefnogi'r datblygiad o sgiliau gofal uniongyrchol, a chael ei archwilio gan yr AEI cyn ei ddefnyddio

### SPNE (2018)

Rhan 3 Dysgu Ymarferol

**3.4** sicrhau bod cyfleoedd dysgu sydd wedi'u gwella gan dechnoleg ac ar sail efelychu'n cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn gyfrannol mwyn cefnogi dysgu ac asesu, a sicrhau bod rhaglenni nyrsio cyn-cofrestru sy'n arwain at gofrestru ym maes ymarferol oedolion yn cydymffurfio ag Erthygl 31(5) o Gyfarwyddeb 2005/36/EC (Gweler isod)

**Cyfarwyddeb 2005/36/EC lleiafswm gofynion ar gyfer gofal cyffredinol (nyrsys oedolion), Erthygl 31 – hyfforddiant i nyrsys sy'n gyfrifol am ofal cyffredinol**

**31(5)** Hyfforddiant clinigol yw'r rhan honno o hyfforddiant i nyrsys lle byddant yn dysgu, yn rhan o dîm a thrwy gyswllt uniongyrchol gydag unigolion a/neu gymuned iach neu sâl, i drefnu, gweinyddu ac arfarnu'r gofal nyrsio cynhwysfawr, ar sail gwybodaeth, sgiliau a'r cymwyseddau y maent wedi'u hennill. Bydd y nyrs dan hyfforddiant yn dysgu nid yn unig sut i weithio mewn tîm, ond hefyd sut i arwain tîm a threfnu gofal nyrsio cyffredinol, gan gynnwys addysg iechyd i unigolion a grwpiau bach, o fewn sefydliadau iechyd neu yn y gymuned.

Bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei gynnal mewn ysbytai a sefydliadau iechyd eraill yn y gymuned, dan gyfrifoldeb athrawon nyrsio, ar y cyd a chyda chymorth nyrsys cymwys eraill. Mae'n bosib y bydd personél cymwys eraill yn cymryd rhan yn y broses addysgu.

Bydd nyrsys dan hyfforddiant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau'r adran dan sylw cyn belled ag y bo'r gweithgareddau hynny yn briodol i'w hyfforddiant, yn eu galluogi nhw i ddysgu sut i gymryd y cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth ofal nyrsio.

# Rôl y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

NMC Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

## Yr hyn rydym ni'n ei wneud

Ein gweledigaeth yw nyrsio a bydwreigiaeth ddiogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles pawb. Fel rheoleiddiwr proffesiynol bron i 745,000 o weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol, mae gennym ni rôl bwysig i'w chwarae i wireddu hyn.

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Yn gyntaf, rydyn ni'n hyrwyddo safonau proffesiynol uchel ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Yn ail, rydyn ni'n cadw cofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Yn drydydd, byddwn yn ymchwilio i bryderon am nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio – rhywbeth sy'n effeithio ar lai nag un y cant o weithwyr proffesiynol bob blwyddyn. Rydyn ni'n credu mewn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol fynd i'r afael â phryderon, ond byddwn ni bob amser yn gweithredu pan fydd angen.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydyn ni'n **cefnogi** ein proffesiynau a'r cyhoedd. Rydyn ni'n creu adnoddau a chanllawiau sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfa pobl, gan eu helpu i gyflawni ein safonau wrth weithio a mynd i'r afael â heriau newydd. Rydyn ni hefyd yn cefnogi pobl sy'n rhan o'n hymchwiliadau, ac rydyn ni'n gwneud ein hunain yn fwy amlwg er mwyn i bobl deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u grymuso i lywio ein gwaith.

Mae rheoleiddio a chefnogi ein proffesiynau yn ein galluogi i **ddylanwadu** ar iechyd ac ar ofal cymdeithasol. Rydyn ni'n rhannu gwybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddio ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi'r broses o gynllunio'r gweithlu a gwneud penderfyniadau ar draws y sector. Rydyn ni'n defnyddio ein llais i siarad o blaid amgylchedd gwaith iach a chynhwysol i'n proffesiynau.

**Cymeradwywyd y Safonau Adfer gan y Cyngor ar 2 Gorffennaf 2020**

**Cafodd safonau adfer RN5 ac RN5.1 eu cymeradwyo gan y Cyngor ar 16 Chwefror 2021**

**Cymeradwywyd y Safonau Adfer RN6(D) gan y Cyngor ar 24 Tachwedd 2021.**